



Cymdeithas Eryri
Snowdonia Society

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR A
DATGANIADAU ARIANNOL HEB EU HARCHWILIO
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31
MAWRTH 2025**

Williams Denton Cyf
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
Glaslyn
Ffordd y Parc
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FE

Cynnwys

- 3 Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
- 22 Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol
- 23 Datganiad Gweithgareddau Ariannol
- 24 Mantolen
- 25 Datganiad Llif Arian
- 26 Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian Parod
- 27 Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

Cyflwyniad o'r Gadair

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arfer a Argymhellir sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2019).

Ar ôl cwblhau blwyddyn gyntaf ein strategaeth yn 2024/25 gyda'i nod cyffredinol a therfynol o gyflawni 'Eryri sy'n Gyfoethog o ran Byd Natur i Bawb', gallwn fyfyrion ar yr hyn yr ydym wedi'i gyfrannu fel rhan o gymuned ehangach o unigolion, partneriaid a sefydliadau o'r un anian.

Mae uchelgais o'r fath yn dibynnu ar gynifer o bethau. Gwyddom fod cyflwr byd natur ledled Eryri wedi dirywio yn ystod y degawdau diwethaf a bod gwrthdroi'r duedd yn her enfawr. Mae llawer yn dibynnu ar waith dilynol Llywodraeth Cymru i'r Ymchwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a gyhoeddwyd yn 2022 gydag argymhellion ar gyfer cadwraeth bywyd gwyllt a chynefinoedd, a dyrannu adnoddau credadwy i roi gwelliannau ar waith. Yn y cyfamser, yng Nghymdeithas Eryri rydym yn parhau â'n gwaith yn angerddol i warchod a diogelu'r amgylchedd ledled Eryri a darparu cyfleoedd i alluogi pawb i gael mynediad at rinweddau arbennig yr ardal a'u mwynhau.

Ein prif nod yw ysbrydoli mwy o bobl i gymryd rhan ac ymgysylltu â sicrhau Eryri sy'n gyfoethog o ran byd natur, a'n rhaglen wirfoddoli yw'r prif raglen ar gyfer cyflawni gweithredu effeithiol. Rydym wedi gweld sut mae gwirfoddoli yn galluogi ac yn grymuso pobl o bob oedran i wneud gwahaniaeth a theimlo'n falch o'r hyn maen nhw'n ei wneud, a dyna pam ei fod yn elfen graidd o'n gwaith drwyddo draw, fel yr adroddir isod.

Ar ôl hyfforddi gwirfoddolwyr fel arweinwyr,

rydym wedi ehangu ein cyrhaeddiad trwy gynnal digwyddiadau lu sydd wedi denu cymunedau, ysgolion ac unigolion, gan arwain at eu hymdeimlad o bwrpas, cyflawniad a bod yn rhan o fudiad ehangach. Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc a fydd yn mynd â hyn ymlaen fel y genhedlaeth nesaf.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i ddylanwadu ar ymgynghoriadau polisi i sicrhau canlyniadau gwell, gan gynnwys ar gyfer datblygiad parhaus y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac wedi rhoi ymgyrchoedd ar waith i lunio penderfyniadau ar rwydwaith peilonau'r dyfodol ledled Cymru. Er ein bod yn cefnogi'r cysyniad o gynlluniau trydan dŵr, yn enwedig ar gyfer cymunedau, mae yna adegau, yn ein barn ni, pan fydd pryderon amgylcheddol yn drech na'r rhain.

Fel erioed, ni fyddai ein gwaith yn bosibl heb i ni ddiolch i bawb sy'n cyfrannu'n ariannol fel cyflenwyr a noddwyr grant, ein gwirfoddolwyr, a'n tîm o staff sy'n rhoi'r cwbl ar waith gydag angerdd, ymroddiad a gwybodaeth.

Hoffwn ddiolch hefyd i fy nghyd-ymddiriedolwyr am eu mewnbwn yn ystod y flwyddyn. Ffarweliwyd â David Walker a Chris Ball a chroesawyd Rob Collister yn ôl, ynghyd â'r ymddiriedolwyr newydd Rick Heavers, Rob Nicholson a Mark Dakeyne gyda'u profiad o drin arian, cynllunio ac addysg.

Wrth edrych ymlaen, ein nod yw ehangu ein gwaith i adfer byd natur a chreu cyswllt â mwy o bobl i gefnogi a chymryd rhan ymarferol yn yr hyn yr ydym yn ei wneud.

Sue Beaumont

Sue Beaumont - Cadeirydd
Cymdeithas Eryri



Mwy am Gymdeithas Eryri

Mae Cymdeithas Eryri wedi bod yn gofalu am y tirlun ers bron i 60 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn:

- ni yw'r unig sefydliad gwirfoddol sydd wedi bodoli'n unig ar gyfer gwarchod a gwella harddwch a rhinweddau arbennig Eryri er budd pawb sy'n byw yn yr ardal, sy'n gweithio yma ac sy'n ymweld â'r ardal, nawr ac yn y dyfodol.
- rydym wedi cyflenwi gwybodaeth ac ysbrydoli cenedlaethau o wirfoddolwyr a chefnogwyr i gymryd rhan ymarferol mewn gwella bioamrywiaeth Eryri a chynnal ei nodweddion a wnaed gan ddyn megis llwybrau, ffensys, gwrychoedd a chloddiau, ac rydym yn cael ein cydnabod am hyn fel ein cryfder craidd
- rydym wedi herio newidiadau arfaethedig a oedd yn bygwth gwarchodaeth Eryri yn sylweddol ac wedi dadlau dros werthfawrogiad a dealltwriaeth well o'r ardal nodedig hon.

Ein gweledigaeth


- ysbrydoli mwy o bobl i weithredu'n gynaliadwy i gefnogi Eryri sy'n fwy cyfoethog o ran byd natur y gall pawb gysylltu ag o, ei ddathlu a'i werthfawrogi
- gwneud Eryri yn enghraifft ar gyfer rheoli tirweddau dynodedig yn gynaliadwy, lle mae pobl o gefndiroedd amrywiol yn gweithredu i sicrhau bod tirwedd, diwylliant a'r dirwedd hanesyddol yn cael eu gwerthfawrogi, eu gwarchod a'u mwynhau.

Ein Cenhadaeth

Addysgu a hysbysu er budd Eryri sy'n fwy cyfoethog o ran byd natur, hyrwyddo a dadlau dros ddiogelu byd natur a threftadaeth ledled Eryri a nodi meysydd lle all y Gymdeithas gael yr effaith gadarnhaol fwyaf dros gyfnod o amser.

Ein dulliau o weithredu

- rydym yn llais annibynnol a gwybodus dros Eryri
- mae hyfforddi gwirfoddolwyr a buddsoddi mewn pobl ifanc yn ein galluogi i gyflwyno'r rhaglen wirfoddol fwyaf yn Eryri, sef Dwylo Diwyd, sy'n cynnwys pobl o bob oed a chefnidir
- wrth weithio mewn partneriaeth gallwn gyflawni mwy
- rydym yn cefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru
- rydym yn gweithio wrth gydnabod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant



Ein cyflawniadau yn 2024-25

Un o'n blynyddoedd prysuraf a mwyaf llwyddiannus erioed i Gymdeithas Eryri

Diolch i waith dygn ac ymroddiad ein staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr, cydweithrediad ein partneriaid a chefnogaeth ein noddwyr, mae Cymdeithas Eryri wedi cael un o'i blynyddoedd prysuraf a mwyaf llwyddiannus erioed, wrth weithredu i warchod tirluniau arbennig Eryri er mwynhad a ffyniant pawb.

Mae gwirfoddolwyr wedi gweithio dros 5000 o oriau i helpu i gadw Eryri yn arbennig drwy ymgymryd ag ystod o waith cadwraeth ymarferol yn cynnwys clirio rhywogaethau ymledol, cynnal llwybrau, rheoli cynefinoedd dros fywyd gwyllt a phlannu coed. Mae Cymdeithas Eryri yn hynod o ddiolchgar i bob un.

Ymysg uchafbwyntiau'r flwyddyn mae datblygiad ein project Caru Eryri i gynnwys arweinwyr gwirfoddol a chynnig ystod o gyfleoedd hyfforddi achrededig, penwythnos ddifyr ac effeithiol Mentro a Dathlu (MaD) a chyflogi dau o hyfforddedigion a fu'n aelodau ardderchog o staff ac a gyfrannodd yn ymroddedig i'n gwaith.

Gwirfoddolwyr

Mae Cymdeithas Eryri yn derbyn cefnogaeth gwirfoddolwyr i'n gwaith cadwraeth ymarferol, yn ogystal â chefnogaeth ymddiriedolwyr a chynghorwyr ad hoc, er enghraifft, ar geisiadau cynllunio yn y Parc Cenedlaethol. Rydym yn ddiolchgar iawn iddyn nhw i gyd am eu hamser, eu hymroddiad a'u harbenigedd amhrisiadwy. Yn unol â SORP 2015 nid yw cyfraniad gwirfoddolwyr wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, oherwydd ni ellir mesur hyn yn hawdd mewn termau ariannol.

Rydym yn defnyddio'r term Dwylo Diwyd i ddisgrifio ein holl waith ymarferol gyda gwirfoddolwyr. Roedd y llynedd yn cynnwys ystod eang o lynnau gan gynnwys Caru Eryri, gwaith i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng byd natur, ein cyfraniad at Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau, Penwythnos MAD, ein hyfforddiant ym maes cadwraeth a'n gwaith a gefnogir gan y Gronfa Ffyniant a Rennir, er bod llawer o'n gwaith yn dod o dan fwy nag un o'r categorïau hyn. Amlinellir yn fyr isod y projectau, eu hamcanion a'u canlyniadau a'r gwahaniaeth a wnaed y llynedd.

Dwylo Diwyd

Ein gwaith cadwraeth ymarferol gyda gwirfoddolwyr

Caru Eryri
Sbwriel a llwybrau

Penwythnos
Mentro a Dathlu

Partneriaeth Tirwedd y
Carneddau:
Clirio llystyfiant a rheoli Jac y Neidiwr
yn ac o gwmpas y Carneddau

Cyfleoedd gwirfoddoli
eraill gan gynnwys:
Plannu coed
Rheoli gwlyptiroedd
Codi waliau cerrig sych
Rheoli cynefinoedd
Clirio rhywogaethau ymledol

Clirio Celyn yn Coed Aber Artro

Project Caru Eryri

Mae bron i 4 miliwn o bobl yn dod draw i Eryri bob blwyddyn. Er bod y mwyafrif yn trin yr ardal yn barchus, mae llawer i leoliad poblogaidd yn dioddef problemau o ganlyniad i gam-ddefnydd: llygredd un-defnydd, sef sbwriel, erydiad llwybrau, a llawer gwaeth. Mae Caru Eryri, a roir ar waith mewn partneriaeth gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn canolbwyntio ar glirio sbwriel, cynnal llwybrau ac annog defnydd positif a diogel o Eryri i bawb. Mae gwirfoddolwyr yn gweithio'n ddygn rhwng mis Ebrill a mis Hydref, yn cynnwys pob penwythnos, yn lleoliadau mwyaf poblogaidd Eryri. Eleni, gwnaed gwahaniaeth enfawr gan arweinwyr gwirfoddol wrth iddyn nhw dderbyn cyfrifoldeb am arwain grwpiau o wirfoddolwyr, gan alluogi cwblhad mwy o waith.

Gweithiodd gwirfoddolwyr dros 2,000 o oriau ar y project Caru Eryri yn unig gan gynnwys clirio dros 1,250 kg o sbwriel a chynnal dros 35 km o lwybrau. Penderfynwyd ar fannau allweddol ar gyfer y gwaith mewn trafodaethau gyda'n partneriaid i sicrhau bod ein gwaith mor gydweithredol ac effeithiol â phosib. Rydym yn hynod o ddiolchgar i bawb a gyfrannodd tuag at y project yma drwy wneud gwahaniaeth positif i'r mannau bregus yma. Mynegodd llawer o ddefnyddwyr y llwybrau eu diolch i'n gwirfoddolwyr hefyd, gan sylweddoli bod y gwaith a wneir ganddyn nhw'n angenrheidiol, yn anffodus.

Mae gennym effaith bositif enfawr ar yr amgylchedd (rydym yn casglu cymaint o sbwriel). Rydym yn hyrwyddo cerdded cynaliadwy yn ein mynyddoedd ac yn annog eraill i gasglu sbwriel neu beidio â'i daflu. Rydw i'n teimlo'n dda ar ôl cyfrannu at fy ardal leol a'r amgylchedd. Mae'n ymarfer corfforol gwych ac rydw i'n dod i adnabod ardaloedd ar wahanol adegau o'r flwyddyn na fyddwn fel arfer yn ymweld â nhw. Rydw i'n hoffi cyfarfod pobl o'r un anian. Mae'r arweinwyr i gyd wedi bod yn wych; wedi edrych ar ein holau a bod yn gwbl glir ar yr hyn yr ydym yn ei wneud."
-Gwirfoddolwr



Cynnal a chadw llwybr cerdded ar lwybr Llanberis

Penwythnos Mentro a Dathlu (MaD)

Unwaith eto, cynhaliwyd ein penwythnos MAD poblogaidd ar ddiwedd haf 2024. Daeth cyrff sy'n bartneriaid, noddwyr, gwirfoddolwyr a staff at ei gilydd i gwblhau amrywiaeth o orchwylion ymarferol a helpu i edrych ar ôl harddwch, rhywogaethau a chynefinoedd Parc Cenedlaethol Eryri.

Rhai o gyflwyniadau'r penwythnos:

- cyfrannodd 41 o bobl i 400 awr o wirfoddoli a gweithgareddau
- cliriwyd 3 kg o sbwriel anhygyrch o lannau Llyn Padarn gyda chanŵ
- cynhaliwyd dros 2.5 km o Lwybr Watkin Yr Wyddfa ar y cyd â Thîm Llwybrau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- cliriwyd Rhododendron o 15 erw o dir Coed Cadw
- casglwyd 23 kg o sbwriel o Gwm Hetiau, Yr Wyddfa fel rhan o gasglu sbwriel eithafol Caru Eryri
- dysgodd 14 o bobl am goedwigoedd hynafol yn eiddo Coed Cadw, Coed Hafod y Llyn
- cafodd 10 o bobl gyfle i wyllo ymlusgiaid ac amffibiaid yn agos yn safle Gwaith Powdwr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru

Drwy gyfrwng y cyfle yma cafodd teuluoedd a phobl ifanc gipolwg ar gadwraeth a buddion cydweithio yn y tirlun hardd hwn.



Casglu sbwriel o ganŵ ar Lyn Padarn

Partneriaeth Tirlun Y Carneddau

Dros gyfnod o ddwy flynedd, mae Partneriaeth Tirlun y Carneddau wedi bod yn broiect trawiadol; fe'i gwnaed yn bosib gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Cenedlaethol. Mae oddeutu 20 o gyrff wedi cydweithio i helpu i warchod treftadaeth naturiol a diwylliannol tirlun y Carneddau. Treuliodd y ffrwd clirio llystyfiant dros 300 awr yn clirio llystyfiant o safleoedd archeolegol pwysig a safleoedd bwydo'r frân goesgoch, gan alluogi gwirfoddolwyr i ddysgu am fyd natur ac archeoleg. Roedd yn cynnwys grwpiau o Ysgol Tir Morfa a Choleg Dewi Sant. Yn ystod yr ail ffrwd, cliriwyd y rhywogaeth ymledol jac-y-neidiwr yn ardal y Carneddau ac o'i chwmpas a chynigiwyd cyngor a chefnogaeth i gymunedau oedd yn gwneud yr un peth. Yn cymryd rhan yr oedd Ysgol Llangelynnin, Ysgol Bro Gwydir ac Ysgol Dyffryn Enfys.

Meddai un gwirfoddolwr brwdfrydig fu'n cymryd rhan mewn clirio llystyfiant:

"Awyr iach, tywydd da, golygfeydd hyfryd a chwmni da!"

Llinellau yn y Tirlun


Roedd Llinellau yn y Tirlun, a ariannwyd gan y Grid Cenedlaethol, yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau gyda'r nod o helpu pobl i archwilio ac ystyried gwahanol fathau o linellau yn nhirlun Eryri. Daeth y project i ben yn haf 2024 ar ôl gwireddu rhaglen ystyriol a difyr yn cynnwys hyfforddiant mordwyo, teithiau tywys a chanŵio a gweithdy celf. Rydym yn falch o fod wedi gweithio gydag amrywiaeth o bobl o bob math yn cynnwys grwpiau o Dŷ Penrhyn (corff bychan sy'n cefnogi pobl sy'n adfer wedi caethiwed i gemegau/cyffuriau), grŵp ieuenctid Penrallt a Phobl i Bobl (elusen sy'n cefnogi ffoaduriaid).

Dwylo Diwyd yn Helpu Byd Natur

Mae hi’n argyfwng ar fyd natur Cymru. Yn ôl Adroddiad Sefyllfa Byd Natur , mae un rhywogaeth o bob chwech mewn perygl o ddiflannu o Gymru dros y deng mlynedd nesaf. Rydym yn gweithio yn aml gyda chyrrff sy’n bartneriaid ac elusennau sy’n berchen tir er mwyn gweithredu’n ymarferol a gwneud gwahaniaeth i fyd natur Eryri. Mae hyn wedi cynnwys mynd i’r afael â rhywogaethau ymledol, yn enwedig jac-y-neidiwr a Rhododendron ponticum. Chwyn ymledol ar lannau afon a ffosydd yw jac-y-neidiwr a gyflwynwyd i’r DU yn 1939, ac mae’n rhwystro rhywogaethau brodorol rhag tyfu. Eleni, treuliodd ein gwirfoddolwyr 331 o oriau yn rheoli jac-y-neidiwr, gan weithio gyda chymunedau lleol i wneud hynny.

Mae coedlannau brodorol yn cynnal llawer o wahanol rywogaethau o ffwng, cennau, mwsoglau a phlanhigion, yn ogystal ag adar, infertebratau ac anifeiliaid eraill. Mae llawer o’r rhywogaethau yma o dan fygythiad ac yn prinhaus, ac mae rhai eisoes wedi mynd i ddifodiant. Fe all plannu coedlan newydd chwarae rôl anferthol mewn gwarchod a gwella cynefinoedd eraill, gwella ansawdd dŵr a helpu i leihau risg llifogydd. Rydym yn gweithio gyda chyrrff sy’n bartneriaid fel Coed Cadw a’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i blannu’r coed brodorol priodol yn y mannau priodol er mwyn cynnig cymaint o fuddion ecolegol â phosib, gan blannu dros 3.900 o goed eleni. Bydd y goedlan newydd a grëwyd yn tyfu’n raddol yn y dyfodol i gynnig gwir rodd i genedlaethau’r dyfodol.

GWEITHGAREDDAU GWIRFODDOLI CYMDEITHAS ERYRI 2024/25



Ardal project		Gweithgaredd	Nifer oriau
Caru Eryri		Cynnal llwybrau	1,323
		Casglu sbwriel	862
Projectau traws-gysylltiedig	Digwyddiadau	Enghreifftiau: hyfforddiant, teithiau tywys, gwyllo byd natur	975
Dwylo Diwyd		Plannu coed	860
		Waliau a charneddi	430
		Clirio Rhododendron	200
	Project y Carneddau	Clirio jac-y-neidiwr	331
		Clirio llystyfiant (eithin yn bennaf)	325



Gwirfoddolwyr yn feithrinfa goed Hafod Garregog

CYFANSWM ORIAU GWIRFODDOL 5,306

Sesiynau Hyfforddi Gwir Gyflog Byw

Roeddem yn ffodus o allu cynnig cyfle i ddau o bobl ifainc lansio gyrfaedd o fewn cadwraeth natur yn Eryri drwy gyfrwng sesiynau hyfforddi cadwraeth a ariannwyd gan y Gronfa Cyfoeth a Rennir. Cychwynnodd Chelsea Boden a Molly Isherwood eu taith fel hyfforddedigion ym mis Chwefror 2024. Drwy gydol y flwyddyn roedd y ddwy yn aelodau gwych o’r tîm – yn drefnus, yn ofalus ac yn boblogaidd gyda staff a gwirfoddolwyr fel ei gilydd. Roeddem yn awyddus i gynnig iddyn nhw gymaint o gyfleoedd â phosib i dyfu a datblygu a’u gosod ar eu llwybr i barhau o fewn gwaith cadwraeth yn y dyfodol. Yn ein tyb ni, roedd y sesiynau hyfforddi’n llwyddiant mawr i’r Gymdeithas a Chronfa CCR.

“Mae’n rhyfedd edrych yn ôl ar fy amser gyda Chymdeithas Eryri a sylweddoli cymaint yr ydw i wedi ei ddysgu yn ystod fy amser yma. Mae’n anodd edrych yn ôl ar yr unigolyn nerfus a eisteddai yng nghornel y swyddfa ar ei diwrnod cyntaf. Ond mae hynny’n dangos cymaint yr ydw i wedi datblygu, a faint o gyfleoedd rydw i wedi eu cael. Mae’r wythnos ddiwethaf wedi bod yn amser i adlewyrchu a darganfod fy mod wedi mynychu cymaint â 61 o ddyddiau gwaith cadwraeth ac wedi arwain mwy na hanner y rhain; roedd hynny’n wirioneddol gyffrous. Cefais gyfle i fagu cryn hyder yn ochr ymarferol cadwraeth a’r ochr weinyddol dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Bellach mae gen i ystod eang ac amrywiol o fedrau cadwraeth i’m enw.”

Molly Isherwood, o dan hyfforddiant



“Cyflawniad heriol (dychrynllwyd) arall yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf oedd pan luniais a chyflwynais sgwrs i weithwyr o fewn Llywodraeth Cymru am Gymdeithas Eryri, ein hanes, ein gwaith cadwraeth a’n rhan o fewn trafodaethau am yr hinsawdd, fel rhan o’u sgysiau amser cinio yn ystod Wythnos yr Hinsawdd. Roedd hyn yn gyffrous ac yn eithaf heriol, ond rydw i’n hynod o falch fy mod wedi ei wneud ac yn falch o fod wedi llwyddo. Roedd hefyd yn ymarfer da ar gyfer cyflwyno sgwrs am ein gwaith cadwraeth eleni yn ein Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol a gynhelir y mis nesaf!” Chelsea Boden, o dan hyfforddiant

Canlyniadau a sicrhawyd gyda chefnogaeth y Gronfa Cyfoeth a Rennir

Un elfen allweddol yn ein llwyddiant eleni yw'r nawdd hael a dderbyniwyd drwy gyfrwng y Gronfa Cyfoeth a Rennir (CCR/SPF), gan Lywodraeth y DU ac a weinyddwyd drwy gyfrwng Cyngor Gwynedd. Defnyddiwyd yr arian gennym i wireddu'r rhan fwyaf o'r gwaith cadwraeth ymarferol a amlinellwyd uchod, yn enwedig Caru Eryri, Sesiynau Hyfforddi Gwir Gyflog Byw, ein gwaith i fynd i'r afael â'r argyfwng byd natur a Phenwythnos MAD. Roeddem hefyd yn gallu defnyddio rhywfaint ohono i fuddsoddi yn ein hoffer ar gyfer dyddiau gwaith cadwraeth a'n hystafell storio yn y Caban. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i gynnal ein gwaith am rai blynyddoedd yn y dyfodol. Cafwyd cefnogaeth o £247,000 gan CCR dros ddwy flynedd a dyma felly ein prif ffynhonnell o incwm yn ystod y flwyddyn. Roeddem yn gallu defnyddio hwn mewn ffyrdd a oedd yn ateb amcanion y Cynllun Cyfoeth a Rennir i greu projectau cadwraeth ymarferol i wirfoddolwyr a fyddai'n gwneud gwahaniaeth a chreu cyrsiau hyfforddi, yn unol â'n hamcanion elusennol ein hunain.

"Ewch allan gymaint ag y gallwch; bydd y teimlad o gymryd rhan mewn achos da yn cynnal eich iechyd meddwl a'ch teimlad o hunan-werth"

"Canlyniad gwaith dygn unigolion, llawer yn gwirfoddoli yn eu hamser sbâr, yw gwaith ac effeithiolrwydd Cymdeithas Eryri, sydd mor bwysig o ran cynnal harddwch a hygyrchedd Eryri"

"Rydw i wedi dysgu bod modd tynnu mlaen efo unrhyw un o unrhyw oed a chefnidir os ydych chi'n rhannu diddordeb ac angerdd. Dysgais lawer o fedrau newydd ee cynnal llwybrau, clirio rhywogaethau ymledol, casglu hadau, casglu sbwriel, daearyddiaeth, daeareg, gwell medrau mordwyo ac arwain mynydd, a llawer am fyd natur lleol Eryri ac am gadwraeth drwyddo draw."

Ni fyddem wedi gallu ymgymryd â'n gwaith heb gefnogaeth hael ein noddwyr grant; rydym yn parhau i fod yn hynod ddiolchgar iddyn nhw. Yn ystod 2024/25 y rhain oedd:



Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

nationalgrid





Garfield Weston FOUNDATION



Cronfa Treftadaeth Heritage Fund



PARTNERIAETH TIRWEDD Y CARNEDDAU LANDSCAPE PARTNERSHIP



PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY



POSTCODE COMMUNITY TRUST



CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND



CYNGOR GWYNEDD



WcVA Cggc



Gwirfoddoli Cymru Volunteering Wales

Tŷ Hyll

Mae Tŷ Hyll yn parhau i gael ei osod ar les fel caffi ac yn ystod y flwyddyn daeth pobl newydd i'w redeg. Y flwyddyn nesaf bydd angen i ni ddiweddarau'r cyfleusterau. Mae Coed Tŷ Hyll, y goedlan naturiol hardd sy'n amgylchynu'r tŷ, yn parhau i fod yn agored i'r cyhoedd. Cyfarfu Orlando Fraser, Cadeirydd y Comisiwn Elusennol sydd ar fin ymddeol, â Chadeirydd a Chyfarwyddwr Cymdeithas Eryri yn Nhŷ Hyll, fel rhan o ymweliad i ddysgu am waith elusennau Cymru.



Swyddfa'r Gymdeithas yn y Caban, Brynrefail

Un o'r gorchwylion a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu yw lleihau ein ôl-troed carbon. Yn ystod y flwyddyn, gyda chefnogaeth ein landlord, gosodwyd paneli haul, pwmp gwres ffynhonnell awyr a rheiddiaduron a fydd yn helpu i leihau ôl-troed yr adeilad a'i wneud yn fwy hyfwr yn economaidd yn y dyfodol.





Eiriolaeth

Llais annibynnol a gefnogir gan wybodaeth yn Eryri

Ffermio sy'n gyfeillgar i fyd natur yn Eryri

Yn ystod y flwyddyn ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei Gynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Yn ein hymateb, pwysleisiwyd bod angen cynllun penodol i gefnogi ffermio sy'n gyfeillgar i fyd natur o fewn Parciau Cenedlaethol Cymru a Thirluniau Cenedlaethol – a elwid yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol hyd yn ddiweddar. Buom yn gweithio hefyd gyda'r Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol a Chynghrair Tirluniau Dynodedig Cymru i sefydlu gwefan e-weithredu i annog ein cefnogwyr i wneud yr un fath.

Bu i lawer gymryd rhan ac roeddem wrth ein bodd pan gyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog, Huw Irranca Davies, ei fod yn bwriadu sefydlu Ffermio Bro, cynllun i gefnogi ffermio sy'n gyfeillgar i fyd natur yn Nhirweddau Dynodedig Cymru.

Gwarchod un o raeadrau mwyaf nodedig Eryri

Yn ystod yr hydref ymatebwyd i gais cynllunio ffurfiol am gynllun ynni-dŵr bach yn Rhaeadr y Cwm yng Nghwm Cynfal, Llan Ffestiniog. Gwrthwynebwyd oherwydd byddai'r cynllun yn arall-gyfeirio, ar adegau, bron i 70% o ddŵr y rhaeadr, a beintwyd gan David Cox yn 1836. Mae'r ceunant dan sylw o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a ddynodwyd am ei blanhigion prin sy'n hoffi lleithder, a byddai'r amgylchedd cyfan yn cael ei newid gan y cynllun. Roeddem mor bryderus fel y bu inni gydweithio gydag Ymddiriedolaeth Fwyd Gwyllt Gogledd Cymru, Achub ein Hafonydd a Buglife i sefydlu gwefan e-weithredu a ddefnyddiwyd gan dros 1,000 o unigolion i wrthwynebu'r cynllun. Does dim penderfyniad wedi ei wneud parthed y cais hyd yma.

Rhaeadr ysblennydd Rhaeadr y Cwm

Parcio a Theithio ar gyfer mynyddoedd gogledd Eryri?

Ers sawl blwyddyn mae'r Gymdeithas wedi bod yn galw am gynllun trafnidiaeth cynaliadwy i Eryri a fyddai'n galluogi cerddwyr i gyrraedd Dyffryn Ogwen a'r Wyddfa heb orfod dod â'u ceir i mewn i'r Parc Cenedlaethol, gan felly osgoi problemau parcio sylweddol. Cynigiwyd y dull hwn o weithredu gan Adroddiad Higgitt, a gomisiynwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn 2020. Er bod y gwasanaeth bws Sherpa wedi gwella, gyda gwasanaeth bob awr drwy Ddyffryn Ogwen yn yr haf, mae parcio ym Methesda yn anodd iawn ar ddyddiau braf. Cynigiodd Gymdeithas Eryri bod Parc Bryn Cegin, stad ddiwydiannol a gynlluniwyd ond a oedd yn wag ar y pryd, ychydig i'r gogledd o'r A55 ger Bangor, yn cael ei ddynodi ar gyfer ei ddefnyddio fel cynllun parcio a theithio yng Nghynllun Datblygiad Lleol arfaethedig Gwynedd. Byddwn yn parhau i bwysu am gael cymryd rhan yn yr Ymholiad Cyhoeddus pan ddaw'r cyfle.

Dyfodol o draffig cynaliadwy i Lanbedr?

Ers rhai blynyddoedd mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn edrych ar ffyrdd o leddfu problemau traffig ar y ffordd gul, ddi-balmant sy'n arwain trwy bentref tlws Lanbedr yn Ardudwy. Yn y gorffennol, mae'r Gymdeithas wedi gwrthwynebu cynlluniau ar gyfer ffordd osgoi gyflym, a ystyriwyd gennym yn ormodol ac yn ddiangen. Cafodd y cynlluniau hyn eu gollwng yn y pen draw, ond ym mis Mai 2025 ymgynghorodd Cyngor Gwynedd ar sawl opsiwn, gan gynnwys ffordd osgoi gyflymder isel (40 mya) ynghyd â llwybr pwrpasol ar gyfer cerddwyr a beicwyr trwy'r pentref yn gyfochrog â'r briffordd bresennol.

Ar ôl astudio'r cynlluniau, cytunodd y Gymdeithas i gynnig rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer y cynlluniau hyn er na fydd yn hawdd i Gyngor Gwynedd berswadio Llywodraeth Cymru i'w hariannu ar amcan gost o hyd at £50 miliwn. Gobeithiwn am ganlyniad da i'r sefyllfa draffig anodd iawn yma yn Lanbedr.

Problemau parcio yn Nyffryn Ogwen
Mae'r ceir i gyd yma wedi cael ticedi parcio!



Llun o sut y gallai Llanbedr edrych, gyda'r mesurau Teithio Llesol, a gynhyrchwyd gan yr ymgynghorwyr ar gyfer Cyngor Gwynedd



Peilonau Llennyrch

Peilonau drwy'r Parc Cenedlaethol?

Yng ngwanwyn 2024, cyhoeddodd NESO, y Gweithredwr Systemau Ynni Cenedlaethol, gynlluniau i uwchraddio'r Grid Cenedlaethol i ddarparu ar gyfer y galw enfawr yn y dyfodol am ynni adnewyddadwy sydd ei angen i gyflawni ymrwymadau Net-Sero. Yn anffodus, roedd hyn yn cynnwys cysylltiad tensiwn uchel uniongyrchol rhwng Bangor ac Abertawe, a allai dorri'n syth trwy Barc Cenedlaethol Eryri neu'n agos at ei ffin; gallai hefyd fod yn weledol o'r Parc. Mae NESO a'r Grid Cenedlaethol wedi dweud mai dim ond 'dangosol' yw'r llwybr, ond mae Cymdeithas Eryri yn parhau i fod yn bryderus. Felly, rydym wedi lansio ymgyrch i alw ar Lywodraeth Cymru i egluro i'r Adran Newid Hinsawdd y dylai gosod y cysylltiad o amgylch yr arfordir fod yn opsiwn dewisol ganddyn nhw, yn amodol ar asesiad amgylcheddol boddhaol o'r effaith ar fywyd morol. Gan weithio gyda Chynghrair Tirweddau Dynodedig Cymru, sefydlwyd gwefan e-weithredu gennym sy'n galluogi cefnogwyr yng Nghymru i fynegi pryder i'w Haelodau Seneddol. O ganlyniad, mae 10 AS (allan o gyfanswm o 60) wedi gwneud hynny hyd yn hyn.

Mynediad cyhoeddus i Goed Tan y Bwlch

Ar ôl dioddef toriadau cyllidebol difrifol yn y tymor real dros nifer o flynyddoedd, cymerodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri y penderfyniad poenus ac anodd i roi Plas Tan y Bwlch, a fu'n ganolfan astudio ers 1968, ar y farchnad. Er eu bod yn deall y pwysau ariannol ar yr Awdurdod, roedd Cymdeithas Eryri yn bryderus pan sylweddolwyd y gallai'r gwerthiant arfaethedig hefyd gynnwys y coetir 59 erw, Coed Tan y Bwlch, lle saif y Plas. Mae'r ardal hon o goetir hynafol godidog a Choedwig Law Geltaidd yn cysylltu'n uniongyrchol â choedwigoedd tebyg sydd yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Coed Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru. Dyma ased sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bobl leol ac ymwelwyr. Ymunodd Cymdeithas Eryri ag eraill gyda'r pryderon hyn a bydd yr Awdurdod nawr yn ceisio cyllid Loteri i symud ei Bencadlys i Blas Tan y Bwlch gan egluro, beth bynnag fydd yn digwydd, nad oes ganddo unrhyw gynlluniau i werthu Coed Tan y Bwlch.

Rhedyn ar goeden, Coed Hafod y Llyn, Maentwrog

Gweithio gyda phartneriaid

Fel elusen annibynnol sy'n eiriol dros fywyd gwyllt a thirwedd Eryri, mae Cymdeithas Eryri awyddus i weithio gydag eraill sydd â nodau ac amcanion tebyg, heb fod yn rhwym i'w polisiau aelodaeth a gweithredu. Y prif rai yw:


- Cyswllt Amgylchedd Cymru, rhwydwaith o sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol, cefn gwlad a threftadaeth sy'n gweithio ledled Cymru ac sydd â'r weledigaeth o amgylchedd Cymreig ffyniannus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, elusen annibynnol sy'n ymroddedig i sicrhau dyfodol Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr
- Cynghrair Tirweddau Dynodedig Cymru, sy'n gweithio i warchod, amddiffyn, gwella a dathlu'r tri Pharc Cenedlaethol a Thirweddau a Morweddau gwarchodedig a Dynodedig eraill Cymru. Yn ystod y flwyddyn hon, etholwyd Cyfarwyddwr Cymdeithas Eryri, Rory Francis, yn Is-gadeirydd y grŵp hwn.

Gwirfoddolwyr

Mae'r Gymdeithas yn derbyn cefnogaeth sylweddol gan wirfoddolwyr, yn enwedig ar gyfer Dwylo Diwyd a'n gwaith cadwraeth ymarferol, yn ogystal â chan ymddiriedolwyr a chynghorwyr ad hoc, er enghraifft, ar geisiadau cynllunio yn y Parc Cenedlaethol. Rydym yn hynod o ddiolchgar i bob un ohonyn nhw am eu hamser, eu hymrwymiad a'u harbenigedd amhrisiadwy. Yn unol â SORP 2015 nid yw cyfraniad gwirfoddolwyr wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, oherwydd ni ellir mesur hyn yn hawdd mewn termau ariannol.

Gweithgareddau codi arian

Gwariodd yr elusen £72,568 ar godi arian, gan gynnwys ar sicrhau grantiau, apeliadau codi arian ar-lein, trefnu digwyddiadau a digwyddiadau a drefnir gan eraill, cynhyrchu taflenni aelodaeth, rhan o gost cynhyrchu ein cylchgrawn ac, yn bwysicaf oll, yr amser a dreuliwyd gan staff ar y gweithgareddau hyn.



Harddwch bregus yn Hafod Garregog

Adolygiad Ariannol

Sefyllfa ariannol

Yn ystod 2024/25 prif ffynonellau ariannu Cymdeithas Eryri oedd:

- Cyngor Gwynedd, o ariannu Llywodraeth y DU drwy gyfrwng y Gronfa Cyfoeth o Rennir (CCR/SPF)
- Sefydliad Garfield Weston ar gyfer costau craidd
- Partneriaeth Tirlun y Carneddau (Cronfa Dreftadaeth y Loteri Cenedlaethol)
- Ariannu Llywodraeth Cymru drwy gyfrwng y Grant Gwirfoddoli Cymru a weinyddir gan WCVA (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)
- Cofroddion
- Tanysgrifiadau aelodaeth a chyfraniadau, yn cynnwys gan y Big Give
- Incwm masnachu o rent Tŷ Hyll a gwerthiant hadau

Defnyddiwyd y ffynonellau cyllid cyfunol hyn yn gyfan gwbl i gyflawni'r prosiectau a'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, ac ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol a effeithiodd ar berfformiad Cymdeithas Eryri wrth wneud hynny. Fodd bynnag, roedd rheoli llif arian yn heriol gan fod rhai cronfeydd grant wedi'u hawlio'n ôl-weithredol ac nid oedd cyfanswm y cyllid yn nhri chwarter cyntaf y flwyddyn yn hollol ddigonol i dalu am yr holl waith cadwraeth a gynlluniwyd, yn enwedig gwaith Caru Eryri. Felly cymeradwyodd yr Ymddiriedolwyr dynnu £55,000 o'r Cronfeydd Wrth Gefn Hirdymor i dalu am hyn.

Tua diwedd y flwyddyn bu Cymdeithas Eryri yn ffodus i dderbyn rhodd hael o £387,067 gan Ann Helen Larman, o Nant Gwynant, a fu farw'n drist iawn yn 2020. Fe gynyddodd hwn incwm diwedd y flwyddyn yn sylweddol i £679,118 gyda gwarged o £327,470.

Mae Cymdeithas Eryri yn cydnabod pa mor bwysig fydd hi i ddefnyddio'r rhodd gan Mrs Larman yn ddoeth ac yn gynaliadwy yn y dyfodol yn unol â'i strategaethau cyfredol a strategaethau ar y gweill.

Treuliodd Miss Larman ei bywyd yn caru Eryri fel plentyn, yn dilyn ei chyfnod yma fel efaciwî yn ystod y rhyfel. Roedd ei hangerdd tuag at yr ardal yn heintus; doedd dim yn ei gwneud yn fwy hapus na'i rhannu gyda'i ffrindiau a'i theulu, a gwnaeth hyn ledled sawl cenhedlaeth. Roedd calon Annie'n perthyn yma; roedd yn teimlo'n gryf bod y mynyddoedd, afonydd a llynnoedd yno i bawb eu mwynhau. Gobeithio y bydd y rhodd yma'n helpu i warchod a chynnal y teimladau hynny'n fyw ar gyfer y dyfodol.

- Susan Steel, ffrind agos i Miss Larman

Polisi buddsoddi

Mae cwmni rheoli buddsoddiadau Rathbones wedi cael ei benodi gan Gymdeithas Eryri ers blyneddau lawer i reoli ei bortffolio. Mae Polisi Buddsoddi Ysgrifenedig (PB) Cymdeithas Eryri yn cwmpasu cronfeydd wrth gefn, buddsoddi a rheoli risg.

Cyfanswm gwerth y portffolio buddsoddi gyda Rathbones ar 31 Mawrth 2025 oedd £782,615. Perfformiad y portffolio ar gyfer y flwyddyn oedd 4.6%.

Polisi cronfeydd wrth gefn

Mae ein polisi cronfeydd wrth gefn wedi cael ei newid eleni i sicrhau fod y Gymdeithas yn cadw digon o arian i osgoi anawsterau ariannol tymor byr ac i gwmpasu risg.

Prif amcanion polisi cronfeydd wrth gefn Cymdeithas Eryri yw dal:

- Cronfeydd wrth gefn Tymor Byr (STR) i gadw'r gwerth gyda'r lleiafswm o risg, ond darparu hygyrchedd i gefnogi cyllidebau blynyddol lle rhagwelir y bydd costau'n fwy na'r incwm a gynhyrchir trwy geisiadau am grantiau, a'u dal am hyd at flwyddyn
- Cronfeydd wrth gefn Tymor Hir (LTR) y mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried y dylent gadw swm sy'n cyfateb yn fras i gyfanswm gwariant y ddwy flynedd flaenorol uwchlaw unrhyw gronfeydd wrth gefn STR i alluogi'r elusen i barhau â'i gweithgareddau, a'u dal am dros 10 mlynedd

Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig £335,103 i gyrraedd £824,259 ar 31 Mawrth 2025 (£489,156 yn 2024). O'r rhain, roedd £395,792 yn asedau sefydlog a buddsoddiadau a ddelid gan yr elusen.

Gostyngodd y cronfeydd wrth gefn cyfyngedig £7,633 i £285,000 (£292,633 yn 2024), ac roeddent i gyd yn cynrychioli asedau sefydlog.

Buddsoddi moesegol

Mae polisi Cymdeithas Eryri ar fuddsoddi moesegol wedi'i gynnwys yn y Polisi Buddsoddi Ysgrifenedig, sy'n cyfarwyddo Rathbones fel rheolwr portffolio buddsoddi i gymhwyso 'sgrinio negyddol' i eithrio buddsoddiad mewn camfanteisio ar anifeiliaid, pryderon ynghylch hawliau dynol, pryderon ynghylch rheoli amgylcheddol, effeithiau carbon uchel, agrogemegau, mwynloddio a chamfanteisio ar gynefinoedd. Mae'r ymddiriedolwyr wedi hysbysu Rathbones eu bod yn cadw'r polisi hwn o dan adolygiad o ystyried eu bod yn ffafrio 'sgrinio cadarnhaol' lle mae buddsoddiadau yn y dyfodol mewn cwmnïau sydd â manteision amgylcheddol cadarnhaol a manteision moesegol eraill. Mae Rathbones yn parhau i weithio i fireinio a gwella'r polisi presennol.

Cynlluniau Ar Gyfer Y Dyfodol

